

Julie Morgan AC/AM

**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-P/JM/1564/19

Dai Lloyd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Dai.Lloyd@cynulliad.cymru

SeneddHealth@Assembly.Wales

25 Ebrill 2019

Annwyl Dai

Gan fod dros flwyddyn wedi mynd heibio ers cyhoeddi adroddiad gwerthfawr y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol, roeddwn am roi'r newyddion diweddaraf i'r pwyllgor ynghylch y cynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud hyd yn hyn o ran mynd i'r afael â'r materion pwysig hyn.

Rydym yn dal wedi ymrwmo i ddatblygu strategaeth draws-lywodraethol a fydd yn cynnwys pawb o bob oed; ac felly ymhlith eraill, yn cynnwys plant a phobl ifanc sy'n teimlo'n unig neu wedi eu hynysu oherwydd cael eu bwlio yn yr ysgol, a phobl hŷn wrth iddynt symud o'u cartrefi i mewn i ofal preswyl.

Fel y gwyddoch, ym mis Hydref y llynedd, lansiodd y ddogfen ymgynghori Cysylltu Cymunedau. Cafwyd ymateb brwd iawn i'r ddogfen a'r pedwar digwyddiad ymgynghori cyhoeddus a gynhaliwyd gennym, gyda llawer o sylwadau ar amryw o faterion, ac enghreifftiau o ymyriadau llwyddiannus. Mae'n siŵr y bydd aelodau'r pwyllgor eisoes yn gyfarwydd â rhai o'r prif negeseuon a godwyd: pwysigrwydd lleihau'r stigma, mynediad gwell at wybodaeth, a'r angen i ddatblygu a chefnogi atebion lleol a chadernid cymunedol.

Ar 29 Mawrth, cyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig yn tynnu sylw at rai o brif negeseuon yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a datganiad am y camau nesaf yr ydym yn bwriadu eu cymryd:

<https://gov.wales/written-statement-connected-communities-outcome-loneliness-and-social-isolation-consultation>

<https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cysylltu-cymunedau-canlyniad-yr-ymgynghoriad-unigrwydd-ac-ynysigrwydd>

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Datganiad Ysgrifenedig yn cynnwys dolen at yr adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad llawn.

Er mwyn helpu i ddatblygu'r strategaeth, mae fy swyddogion yn parhau i ymgysylltu â chydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru, cydweithwyr yn Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU, a rhanddeiliaid allanol, ac yn parhau hefyd i ymweld â phrosiectau sy'n gweithio i gael gwared ar unigrwydd ac ynysigrwydd.

Yn unol ag argymhellion y pwyllgor, rydym wedi comisiynu dau ddarn o ymchwil:

- Adolygiad o sut y gallai unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol effeithio ar iechyd a llesiant a chynyddu'r defnydd o wasanaethau.
- Adolygiad o ymwneud y cenedlaethau â'i gilydd, unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol.

Bydd casgliadau'r ymchwil hon yn cael eu cyhoeddi maes o law.

Yn ystod y misoedd nesaf, byddwn yn parhau i weithio ar draws y llywodraeth, ac i ymgysylltu â phartneriaid allanol er mwyn datblygu strategaeth derfynol i'w chyhoeddi yn yr hydref a chodi ymwybyddiaeth a lleihau'r stigma drwy gynnal sgwrs/ymgyrch genedlaethol.

Yn gywir



Julie Morgan AC/AM

Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services